

Gweithredu'r taliad o £500 i weithwyr gofal

Ffurflen hawlio'r gweithiwr.

Rydych wedi cael y ffurflen hon gan eich cyflogwr oherwydd ei fod yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer y taliad o £500 i weithwyr gofal a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Llywodraeth Cymru ar 1 Mai.

Mae'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael y taliad hwn i'w gweld yn:

<https://llyw.cymru/cynllun-taliadau-arbennig-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol#adran-44398>

Os ydych yn dymuno gwneud cais am daliad o £500, rhaid ichi fod wedi'ch cyflogi mewn swydd gymwys rhwng 15 Mawrth 2020 a 31 Mai 2020.

Os ydych yn gymwys, dylech lofnodi'r datganiad ar waelod y ffurflen hon, a'i dychwelyd.

Bydd y swm yn cael ei dalu ichi drwy system gyflogau eich cyflogwr. Mae'r taliad yn cael ei gyfrif fel enillion, felly bydd angen talu treth incwm ac yswiriant gwladol arno. Os ydych yn talu treth ac yswiriant gwladol, bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu cymryd o'ch taliad. Mae mwy o wybodaeth am dreth incwm a chyfraddau yswiriant gwladol ar gael yma:

Treth Incwm <https://www.gov.uk/income-tax-rates>

Yswiriant Gwladol <https://www.gov.uk/national-insurance-rates-letters>

Gan fod y taliad cael ei gyfrif fel enillion, bydd yn cael ei gynnwys wrth gyfrif unrhyw fudd-daliadau rydych yn eu derbyn. Mae hyn yn cynnwys credyd cynhwysol a chredydau treth yn ogystal â budd-daliadau eraill fel budd-dal tai neu gymhorthdal incwm.

Mae rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau ar gael yma:

<https://www.gov.uk/browse/benefits/entitlement>

Os ydych yn derbyn budd-daliadau, rydym yn eich cyngori'n gryf i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (neu cysylltwch â'ch anogwr gwaith os ydych yn derbyn credyd cynhwysol) er mwyn ichi allu deall yn iawn beth fydd y taliad yma yn ei olygu i chi.

Bydd y taliad hefyd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r ad-daliad ar gyfer unrhyw fenthyciadau myfyrwyr sydd heb eu talu.

Mae mwy o wybodaeth am ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ar gael yma:

<https://www.gov.uk/repaying-your-student-loan>

Bwriad y cynllun hwn yw rhoi un taliad £500 i chi cyn gynted ag y bo modd. Ond mae'n bosib y byddai'n well gennych dderbyn taliad o £100 y mis am 5 mis. Os byddai'n well gennych yr opsiwn hwn, nodwch hynny'n glir isod. Dim ond os ydych

yn cael eich cyflogi'n rheolaidd ac yn dal i gael eich cyflogi gan y cyflogwr a fydd yn gwneud y taliad i chi y bydd yr opsiwn talu hwn ar gael ichi.

Os, am unrhyw reswm, y byddwch yn cael mwy nag un ffurflen hawlio, dylech gyflwyno un yn unig (gan roi gwybod i'r ddau gyflogwr eich bod wedi cael dwy ffurflen a'ch bod yn dychwelyd un heb lofnod). Bydd methu â gwneud hynny'n cael ei ystyried yn dwyll.

Os, am unrhyw reswm, y byddwch yn cael dau daliad (hyd yn oed os mai dim ond un ffurflen hawlio a gyflwynoch chi) dylech roi gwybod i'ch cyflogwr/wyr a rhoi un o'r taliadau yn ôl. Os yw'r taliadau o werth gwahanol am unrhyw reswm, dylech ddychwelyd yr un sydd â'r gwerth isaf (i chi).

Er mwyn gweinyddu'r taliad hwn, bydd angen i'ch cyflogwr rannu rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi gydag awdurdod lleol.

Sut bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio

Os byddwch yn gwneud cais am y taliad o £500 i weithwyr gofal, bydd eich cyflogwr yn rhannu gwybodaeth (e.e. eich enw llawn, eich rhif yswiriant gwladol, a'r dyddiad y cafodd y taliad ei wneud) gyda'r awdurdod lleol sy'n gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu gydag awdurdod lleol, a fydd wedyn yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod y cynllun wedi'i weinyddu'n iawn, bod y rhai sydd wedi cael y taliad yn gymwys i'w gael, ac i sicrhau nad oes unrhyw daliadau dyblyg wedi'u gwneud (er enghraifft os yw gweithiwr yn gweithio i fwy nag un darparwr gofal).

Os hoffech wybod mwy am sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i weinyddu'r cynllun a gwneud y taliad i chi, siaradwch â'ch cyflogwr.

Rhowch eich lofnod a'r dyddiad isod a dychwelyd y ffurflen i'ch cyflogwr.

Gallwch lofnodi fersiwn electronig o'r ffurflen hon drwy deipio eich enw, eich rhif yswiriant gwladol, enw'r cyflogwr a'r dyddiad isod ac anfon y ffurflen o gyfeiriad e-bost sydd yn eich enw chi.

Datganiad

Drwy lofnodi a dychwelyd y ffurflen hon rydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

Hoffwn hawlio'r taliad o £500 i weithwyr gofal

Dyma'r unig ffurflen hawlio rwy'n ei chyflwyno

Os byddaf yn derbyn mwy nag un taliad, byddaf yn rhoi gwybod i'm cyflogwr

Rwy'n cytuno y bydd fy nghyflogwr yn rhoi fy enw a'm rhif yswiriant gwladol i awdurdod lleol er mwyn i'r taliad hwn gael ei wneud.

Dylech dileu un o'r canlynol*:

Hoffwn dderbyn yr arian mewn un taliad o £500

Byddai'n well gennyf dderbyn yr arian mewn 5 taliad o £100 dros gyfnod o 5 mis

*dim ond os yw staff yn cael eu talu'n fisol, a'u bod yn dal i weithio i'r cyflogwr, y maen nhw'n cael y dewis o dderbyn yr arian mewn 5 taliad o £100

Llofnodwyd:

Enw:

Rhif yswiriant gwladol:

Enw'r cyflogwr:

Dyddiad:

